

Aseiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bro Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2561A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gydnerthedd ariannol gyda lefel iach o gronfeydd wrth gefn a chynlluniau cynaliadwy i'w defnyddio 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 6

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol iach ac mae ganddo ddull ariannol cynaliadwy dros y tymor canolig, gyda defnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi 7

Mae gan y Cyngor lefel iach o gronfeydd wrth gefn ac mae ei gynlluniau i'w defnyddio'n gynaliadwy ar y cyfan er gwaethaf peth defnydd heb ei gynllunio yn 2020-21 9

Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni gwarged a throsglwyddo arian i'w gronfeydd wrth gefn, tan 2020-21 pan arweiniodd gorwariannau mewn gwasanaethau at ddefnydd bach heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn 11

Mae gan y Cyngor hanes cymysg o adnabod a chyflawni arbedion i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol 12

Mae gan y Cyngor sefyllfa gref o ran ei hylifedd sy'n golygu y gall gyflawni ei ymrwymadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus ar gyfer eu had-dalu 13

Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

- 1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.
- 2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddodd ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**¹. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.
- 3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwyliid wrth edrych tua'r dyfodol.
- 4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.
- 5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2021.

¹ Archwilio Cymru, [Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19](#), Hydref 2020.

Cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

Cynigion ar gyfer gwella

- C1 O ystyried y bylchau o ran cyllid a ragamcanir yn 2022-23 a 2023-24, mae angen i'r Cyngor benderfynu sut y bydd yn cau'r bylchau hynny, gan gynnwys i ba raddau y bydd arbedion yn cyfrannu at hynny.

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gydnerthedd ariannol gyda lefel iach o gronfeydd wrth gefn a chynlluniau cynaliadwy i'w defnyddio

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

- 6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.
- 7 Canfuom fel a ganlyn:
 - yn 2020-21, mae'r mwyafrif o wariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo o ganlyniad i COVID-19 wedi cael ei ariannu â chyllid gan Lywodraeth Cymru (**gweler Arddangosyn 1**). Felly, hyd yma, nid yw'r pandemig wedi cael effaith niweidiol ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod peth wmbredd o ansicrwydd ynghylch hyd y pandemig a maint y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer costau sy'n deillio o'r pandemig.
 - mae'r Cyngor wedi cynnwys £1.050 miliwn yn ei gyllideb refeniw 2021-22 ar gyfer y cynnydd yng nghostau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r pandemig wedi arwain at gyfraddau is o ran casglu'r Dreth Gyngor ac roedd adroddiad monitro refeniw'r Cyngor ar gyfer Chwarter 3 yn 2020-21 yn nodi bod y gyfradd gasglu 1.7% yn is ar ddiwedd mis Ionawr 2021, sy'n cyfateb i oddeutu £1.5 miliwn.

Arddangosyn 1: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21 {gwybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor}

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Y swm ychwanegol a wariodd y Cyngor o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21.	£20.8 miliwn
Swm yr incwm a gollodd y Cyngor o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21.	£3.6 miliwn
Swm y cyllid ychwanegol a gafodd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19.	£23.7 miliwn
Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.	£1.7 miliwn

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol iach ac mae ganddo ddull ariannol cynaliadwy dros y tymor canolig, gyda defnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi

Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwyllir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.


Canfuom fel a ganlyn:

- mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) diweddaraf y Cyngor yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2023-24. Mae'r Cyngor yn diwygio'r CATC yn flynyddol yn yr hydref.

- caiff y CATC ei lunio trwy edrych ar bwysau o ran costau sy'n hysbys, arbedion y cytunwyd arnynt a modelau ariannol. Mae'r Cyngor yn defnyddio dull darbodus o wneud gwaith modelu ariannol, gan ragamcanu gwahanol senarios o ran setliadau yn y dyfodol: gostyngiad o 1%, dim newid a chynnydd o 1%.
- mae'r Cyngor wedi rhagamcanu y bydd ganddo fwllch o £10.435 miliwn yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf ond nid yw wedi nodi'n benodol sut y bydd yn cau'r bwllch yma dros gyfnod y CATC. Fodd bynnag, mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol iach ac mae opsiynau amrywiol ar gael iddo i gau'r bylchau hynny. Er enghraifft, mae'n cynnal swm cynaliadwy o gronfeydd wrth gefn gweddillol er gwaethaf y defnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, ac mae ei gyfradd Treth Gyngor ar hyn o bryd yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru.
- mae'r CATC yn cynnwys peth tystiolaeth o gysondeb â blaenoriaethau strategol y Cyngor. Er enghraifft, mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i gefnogi'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, gan gynnwys defnydd wedi'i gynllunio o ran o'r gronfa wrth gefn Ail-lunio Gwasanaethau yn 2021-22, a defnydd wedi'i gynllunio o'r Gronfa wrth Gefn Penodiadau Hyfforddeion ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024 i ddarparu cyllid i benodi hyfforddeion ac interniaid i gefnogi gwasanaethau a'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau.

Arddangosyn 2: mae gan y Cyngor gyfanswm bwllch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24 o £10.435 miliwn {ffynhonnell: Adroddiad ar Gynigion Terfynol y Gyllideb i'r Cabinet ar 22 Chwefror 2021}

Mae'r graff hwn yn dangos y bwllch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y tair blynedd ganlynol.



Sylwer: Mae'r bwlch o ran cyllid a ragamcanir yn seiliedig ar dybiaeth y bydd cynnydd o 0% yn y setliad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24. Y ffigwr o £0.5 miliwn yw'r targed arbedion ar gyfer 2021-22.

Mae gan y Cyngor lefel iach o gronfeydd wrth gefn ac mae ei gynlluniau i'w defnyddio'n gynaliadwy ar y cyfan er gwaethaf peth defnydd heb ei gynllunio yn 2020-21

Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

9 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb referniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

Canfuom fel a ganlyn:

- canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20² fod gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy.
- canfu ein hadroddiad cenedlaethol ar Gynaliadwyedd Ariannol ym mis Hydref 2020³ fod gan y Cyngor, ar ddiwedd 2019-20, y swm uchaf o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau o blith yr holl Gynghorau yng Nghymru.
- ym mis Chwefror 2021, roedd yr adroddiad i'r Cabinet ar y cynigion terfynol ar gyfer Cyllideb Referniw 2021-22 yn nodi y bydd gostyngiad o 48% yn lefel cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024. Fodd bynnag, mae hwn yn ymwneud yn bennaf â defnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ac mae'r Cyngor yn ystyried y bydd lefel y cronfeydd wrth gefn yn y cyfnod hwn yn ddigonol. Y balans cronfeydd wrth gefn (Cronfa wrth Gefn y Cyngor) cyffredinol isaf a argymhellir gan y Swyddog Adran 151 yw £10 miliwn. Ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024 mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal y balans hwn ac mae'n rhagfynegi y bydd balans Cronfa'r Cyngor yn £10.074 miliwn ar 31 Mawrth 2024.
- o ganlyniad i gyllid ychwanegol a gafwyd ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y Cyngor yn gallu gwneud trosglwyddiad net i mewn i'r cronfeydd wrth gefn o £12.2 miliwn.

² [Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bro Morgannwg 2019-20](#)

³ [Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19](#)

Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol
[Ffynhonnell: datganiad cyfrifon]

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21 ⁴
Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau ⁵	245.4	234.4	241.5	248.6.	256.2
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau ⁶	76.7	78.7	81.2	83.0	92.2
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel % o gost net gwasanaethau ⁷	31.3%	33.6%	33.6%	33.4%	36.0%
Safle o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru	2	1	1	1	Amh.


⁴ Yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2020-21

⁵ Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

⁶ Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

⁷ Cyfrifiad Archwilio Cymru.

Arddangosyn 5: cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau (ffynhonnell: dadansoddiad Archwilio Cymru)



Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni gwarged a throsglwyddo arian i’w gronfeydd wrth gefn, tan 2020-21 pan arweiniodd gorwariannau mewn gwasanaethau at ddefnydd bach heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn

Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

10 Mae’n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy’n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu’r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Canfuom fel a ganlyn:

- canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 fod y Cyngor yn tanwario’i gyllideb refeniw ar y cyfan, ond bod rhai gorwariannau a oedd yn tyfu mewn rhai meysydd gwasanaeth.
- yn y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 cyflawnodd y Cyngor warged bob blwyddyn ac fe drosglwyddodd arian i’w gronfeydd wrth gefn.
- ar gyfer 2020-21, fe wnaed cyfanswm o £700k o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn.

11 Roedd ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 yn cyfeirio at orwariannau yn y gwasanaethau cymdeithasol plant ac yn y gwasanaethau gwastraff. Ar gyfer 2020-21, fe orwariodd y gwasanaethau cymdeithasol plant o

£149k, er bod y gwasanaethau cymdeithasol ar y cyfan wedi tanwario o £8k. Fe orwariodd y Gwasanaeth Casglu Gwastraff o £1.4 miliwn yn 2020-21, yn rhannol oherwydd yr hyn y mae'r Cyngor yn cyfeirio atynt fel 'pwysau untro', a oedd yn ymwneud yn i raddau helaeth â chyflwyno Patrwm ar gyfer Casglu Llywodraeth Cymru. Ariannwyd y gorwariant â chyllid grant gan Lywodraeth Cymru.

Arddangosyn 6: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb referniw net {Ffynhonnell: adroddiadau alldro blynyddol i'r Cabinet}

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb referniw net y Cyngor ar y cyfan am y pum mlynedd ddiwethaf.

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21 ⁸
Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau ⁹	214.8	215.7	222.1	226.1	240.4
Alldro Refeniw Net Gwirioneddol	216.4	209.0	216.2	223.5	228.2
Swm y gwarged/gorwariant ar y cyfan	-1.6	6.7	5.8	2.6	12.2
Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb referniw net	-0.7%	3.1%	2.6%	1.1%	5.1%

Mae gan y Cyngor hanes cymysg o adnabod a chyflawni arbedion i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol

Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

12 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai

⁸ Yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2020-21

⁹ Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

Canfuom fel a ganlyn:

- canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 nad yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau diweddar o ran arbedion. Mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion o £19.24 miliwn rhwng 2016-17 a 2019-20 (**gweler Arddangosyn 7**). Fodd bynnag, canfu ein hadroddiad yn 2019-20 nad oedd rhai o'r arbedion yn wir arbedion ond i bob pwrpas yn arian annisgwyl yn ystod y flwyddyn – er enghraifft newid i'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw neu doriadau i gyllidebau yn hytrach na thrawsnewid.
- yn 2020-21, fe wnaeth y Cyngor ostwng ei darged arbedion yn sylweddol i £247,000. Y rhesymeg fel a nodwyd yng nghynigion terfynol Cyllideb Refeniw 2020-21 ym mis Chwefror 2020 oedd 'Mae wedi dod yn fwyfwy anodd i wasanaethau gyflawni arbedion pellach heb leihau'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau yn dilyn cyflawni £59 miliwn yn y 10 mlynedd ddiwethaf. Ystyrir bod y targed a bennwyd ar gyfer 2020-21 ar lefel sy'n golygu y gall gwasanaethau ei gyrraedd'. Mae'r adroddiad i'r Cabinet ym mis Chwefror 2021 ar y cynigion terfynol ar gyfer Cyllideb Refeniw 2021-22 yn nodi bod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed arbedion o £247k.
- ar gyfer 2021-22 mae'r Cyngor wedi gosod targed arbedion isel eto o £500k a gynyddwyd o darged gwreiddiol o £116,000. Cynyddwyd y targed o ganlyniad i ailbennu ffocws y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau a mesurau effeithlonrwydd a adnabuwyd o ganlyniad.
- mae adroddiad y Cyngor i'r Cabinet ym mis Chwefror 2021 ar y cynigion terfynol ar gyfer Cyllideb Refeniw 2021-22 yn nodi bod cyfanswm diffyg posibl mewn cyllid ar gyfer 2022-23 a 2023-24 o £9.935 miliwn (yn seiliedig ar gynnydd o 0% i'r setliad blynyddol gan Lywodraeth Cymru). Mae'r adroddiad yn cydnabod bod adnabod arbedion i gyfrannu at gwrdd â'r diffyg hwn yn dod yn fwy o her a bod gwaith i'w wneud o hyd er mwyn adnabod mesurau effeithlonrwydd ar gyfer 2022-23 a 2023-24.

**Arddangosyn 7: arbedion a gyflawnwyd fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio
{Ffynhonnell: adroddiadau alldro blynyddol i'r Cabinet}**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion rhwng 2016-17 a 2019-20 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd yn ogystal ag amcangyfrifon ar gyfer 2020-21.

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau	9.29	4.02	6.30	3.02	0.25
Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau	8.69	3.00	5.17	2.38	0.25
Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau	0.60	1.02	1.13	0.64	0
Canran yr arbedion a gyflawnwyd	93.5%	74.6%	82.1%	78.8%	100%

Mae gan y Cyngor sefyllfa gref o ran ei hylifedd sy'n golygu y gall gyflawni ei ymrwymadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus ar gyfer eu had-dalu

Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

- 13 Pam ei bod yn bwysig pwysu a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):
- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
 - er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
 - dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
 - gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
 - dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- 14 Canfuom fel a ganlyn:
- mae gan y Cyngor sefyllfa hylifedd sefydlog gydag asedau cyfredol yn gyson yn fwy na dwbl gwerth rhwymedigaethau cyfredol. Mae'r Cyngor mewn

sefyllfa gref i gyflawni ymrwymiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus ar gyfer eu had-dalu.

- mae'r Cyngor yn defnyddio dull risg isel o ran rheoli trysorlys. Blaenoriaethau'r Cyngor o ran buddsoddi yw sicrwydd, yna hylifedd, ac yn olaf adenillion.
- ers 2015-16, mae safle'r Cyngor o ran ei gymhareb hylifedd wedi bod ymhlith y ddau awdurdod lleol uchaf yng Nghymru.
- mae strategaeth Rheoli Trysorlys a Buddsoddi'r Cyngor yn rhagweld gostyngiad yn lefel y buddsoddiadau byrdymor. Mae hyn yn arwain at ostyngiad yn y gymhareb hylifedd a amcangyfrifir i 2.0 erbyn 2022-23. Yn seiliedig ar ddata hanesyddol, mae cymhareb o 2.0 yn dal i fod ymhlith yr Awdurdodau Lleol sydd yn y safleoedd uchaf yng Nghymru yn y mesur hwn.

Arddangosyn 8: cymhareb cyfalaf gweithio 2015-16 i 2019-20 {Ffynhonnell: Datganiadau cyfrifon blynyddol a rhagolygon a ddarparwyd gan y Cyngor}

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21 ¹⁰
Asedau Cyfredol ¹¹	110.1	105.4	115.2	127.0	134.0	148.7
Rhwymedigaethau Cyfredol ¹²	40.0	42.7	40.4	49.2	50.4	67.0
Cymhareb Cyfalaf Gweithio	2.7	2.5	2.9	2.6	2.7	2.2

¹⁰ Yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2020-21.

¹¹ Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth

¹² Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.